Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Twitter: @PontybreninYGG

# Grwpiau Ffocws Rhieni 2018/19

Crynodeb o'r materion a godwyd gan aelodau'r Grŵp Ffocws Rhieni – Tymor yr Hydref

Cyfnod Sylfaen: Dyddiad y cyfarfod - 5/12/18

1. Y neges gyffredinol gan rieni a gwarcheidwaid yw eu bod nhw'n hapus iawn â'r ysgol a bod eu plant hefyd yn hapus yn mynychu'r ysgol. Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn wych ac yn glod i'r ysgol.
2. Byddai'n dda gweld mwy o waith disgyblion yn cael ei arddangos ar dudalennau'r dosbarthiadau ar y wefan gan fod anghysondeb o ran yr hyn sy'n cael ei arddangos ar hyn o bryd.
3. Mae llawer o rieni disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn pryderu ynghylch y profion cenedlaethol a gynhelir ym mis Mai.
   Er y gellir deall y pryder hwn, bydd yr ysgol yn gwneud popeth yn ei gallu i gefnogi disgyblion i baratoi ar gyfer y profion ac yn ystod wythnos y profion. Yn ystod tymor y gwanwyn, cynhelir nosweithiau gwybodaeth llythrennedd a rhifedd a fydd yn caniatáu i rieni gefnogi eu plant wrth baratoi ar gyfer y profion, gan gynnwys rhannu hen bapurau prawf.
4. Gofynnodd rai rhieni a oedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael digon o amser i fwyta'u pecynnau cinio yn ystod yr awr ginio.
   Ar hyn o bryd mae disgyblion yn cael 30 munud i fwyta eu pecynnau cinio, ac yn seiliedig ar yr hyn a welir yn ddyddiol, ymddengys fod hyn yn ddigon o amser. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion yn dweud eu bod nhw wedi gorffen eu cinio, neu nad ydynt am gael mwy o fwyd, er mwyn mynd allan i chwarae'n gynnar. Er y bydd staff bob amser yn annog disgyblion i fwyta popeth yn eu pecynnau bwyd, y plentyn sy'n penderfynu yn y pen draw ar yr hyn y mae'n ei fwyta neu beidio. Petai rhieni yn teimlo bod angen mwy na 30 munud ar eu plant i fwyta'u cinio, gofynnwn iddynt gysylltu â'r ysgol fel y gallwn wneud trefniadau priodol ar gyfer y plant hynny.
5. Mae disgyblion yn cwyno o bryd i'w gilydd fod y peiriant cyflenwi sebon/papur toiled yn wag.
   Er bod y peiriannau cyflenwi sebon/papur toiled yn cael eu hailenwi'n rheolaidd, byddwn yn rhoi sylw i'r pryder hwn ac yn archwilio'r toiledau'n ddyddiol er mwyn sicrhau bod y broblem yn cael ei ddatrys.
6. A fydd noson agored i rieni'r Meithrin eleni?
   Trefnir noson sgiliau unwaith eto eleni yn nhymor y gwanwyn i rieni'r disgyblion hynny sydd yn y Meithrin ac yn symud i'r Derbyn ym mis Medi. Bydd y noson yn canolbwyntio ar y strategaethau a ddefnyddir gan yr ysgol i ddatblygu sgiliau disgyblion wrth rannu syniadau â rhieni ynghylch sut gallwn gefnogi eu plant ymhellach adref.
7. Roedd rhai rhieni yn amau'r penderfyniad i symud o brintio i llawysgrifen glwm y tymor hwn a mynegwyd pryderon y byddai hyn yn drysu'r disgyblion.

Fel ysgol sy'n monitro effeithiolrwydd ein strategaethau addysgu'n barhaus, penderfynom fabwysiadu llawysgrifen glwm o ganlyniad i ddirywiad cyffredinol yn safon llawysgrifen disgyblion. Mae cryn dipyn o dystiolaeth i gefnogi'r theori bod llawysgrifen glwm yn helpu disgyblion gyda ffurfio llythrennau ac mae'r penderfyniad hwn wedi dwyn ffrwyth yn barod. Byddwn yn parhau i fonitro effaith y penderfyniad hwn dros y flwyddyn nesaf ac yn gwneud newidiadau petai angen.

<u>Cyfarfod Cyfnod Allweddol 2: Dyddiad y cyfarfod - 12/12/18</u>

1. Mynegodd nifer o rieni eu siom am y diffyg cyfleoedd i ddisgyblion chwarae campau yn erbyn ysgolion eraill.
   Er nad yw'r ysgol byth yn gwrthod gwahoddiad i gystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon, mae llai o gyfleoedd i wneud hynny bellach oherwydd costau cludiant, materion iechyd a diogelwch ayyb. Mae tywydd garw hefyd wedi ein gorfodi ni i ganslo nifer o ddigwyddiadau cynlluniedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud pob ymdrech i drefnu mwy o gemau cyfeillgar a gŵyliau amrywiol yn y dyfodol agos.
2. Mae anghysondeb yn lefel y ddarpariaeth i'r disgyblion hynny sy'n derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol, e.e. gorfod rhannu offerynnau, amserlen anghyson etc.
   Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn danfon holiaduron at rieni'r holl ddisgyblion hynny sy'n derbyn gwersi offerynnol yn ystod tymor y gwanwyn ac yn adolygu'r sefyllfa wedi hynny.
3. Mae rhieni Blwyddyn 6 yn pryderu y bydd y diffyg gwaith cartref ffurfiol yn YGG Pontybrenin yn golygu y bydd eu plant yn gweld hi'n anodd ymdopi â'r galwadau arnynt pan fyddant yn dechrau mynychu YG Gŵyr.
   Er bod rhywfaint o gynnydd yn y gwaith cartref a roddir i ddisgyblion ym mlwyddyn 7, gellir cwblhau'r rhan fwyaf o'r tasgau hyn mewn cyfnod byr ac nid ydynt yn helaeth. Ar ôl casglu barn a safbwyntiau rheini y plant hynny sydd wedi trosglwyddo i YG Gŵyr yn ddiweddar, ni ystyriwyd hyn yn bryder. Fel nodwyd yn yr ymateb i'r holiaduron gwaith cartref diweddar, caiff y penderfyniad i roi terfyn ar ddarparu tasgau gwaith cartref ffurfiol ei adolygu ar ddiwedd y flwyddyn ysgol hon a'i ddiwygio petai angen.
4. Nid yw disgyblion yn newid eu llyfrau darllen mor aml ag y dylent.
   Er y caiff disgyblion eu hannog i newid eu llyfrau darllen yn rheolaidd, mae rhai yn ei chael hi'n anodd pan na allant ddod o hyd i'r llyfr nesaf yn y cynllun darllen gan fod bylchau mewn rhai lefelau o'r cynllun. Mae detholiad helaeth o lyfrau'r cynllun darllen bellach wedi'u archebu a byddant ar gael i ddisgyblion ym mis Ionawr.
5. Cafwyd llawer o adborth cadarnhaol i'r gwaith y mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn gwneud hyd yn hyn eleni, ac roedd y cyflwyniad i'r llywodraethwyr yn uchafbwynt arbennig.
6. Mae ansicrwydd ymysg disgyblion ynghylch yr hyn y maent yn gallu, neu ddim yn gallu ei wneud, ar iard yr ysgol yn ystod amserau egwyl a chinio.

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Twitter: @PontybreninYGG

Oherwydd niferoedd y disgyblion sydd ar yr iard yn ystod amserau chwarae, mae rhai gemau na ellir eu chwarae gan y byddent yn peryglu diogelwch disgyblion eraill. Y prif gemau na chaniateir yw rygbi, pêl-droed a "bulldogs" oherwydd bod y disgyblion ieuengaf yn cael eu bwrw i'r llawr neu eu taro yn eu hwynebau yn rheolaidd gan y peli. Er mwyn annog chwarae ar yr iard, mae 'Ffrindiau YGG Pontybrenin' yn prynu cannoedd o bunnoedd o gyfarpar chwarae bob blwyddyn, ac fe'u dosberthir yn ddyddiol gan Lysgenhadon Chwaraeon Blwyddyn 6. Pan mae'r tywydd yn braf, ac ni ddisgwylir bysus yn y cylchdro, rydym hefyd yn caniatáu i ddisgyblion sydd am chwarae pêl-droed/rygbi i ddefnyddio'r ardal hon lle nad oes cymaint o berygl i ddisgyblion eraill. Rhennir y negeseuon hyn â disgyblion yn rheolaidd a dylai pawb fod yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud ar yr iard.

7. Roedd rhieni am drosglwyddo eu diolch i'r staff am y cyngherddau diolchgarwch gwych a gynhaliwyd yn gynharach y tymor hwn. Roedd safon cyngherddau Blynyddoedd 3 a 4 a Blynyddoedd 5 a 6 yn rhagorol.
8. A yw dyddiadau gweddill y diwrnodau hyfforddiant mewn swydd wedi'u pennu eto?
   O'r 4 diwrnod sy'n weddill, pennwyd y 3 dyddiad sef 7/1/19, 22/2/19 a 22/7/19. Pennir y dyddiad olaf ar ddechrau'r tymor nesaf.
9. Roedd rhieni'n awyddus i ddiolch i'r staff am bopeth y maen nhw'n ei wneud dros y plant ac i ddweud mor hapus y mae eu plant yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin.

Diolch i bawb a gyfrannodd sylwadau i'r grwpiau ffocws hyn. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gennych a gobeithiwn yn fawr y byddwch yn sylwi ar y gwelliannau yn y meysydd hyn yn fuan. Fodd bynnag, os ydych yn parhau i bryderu neu os oes gennych fwy o sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â mi yn yr ysgol i drafod y rhain ymhellach.

Bydd y rownd nesaf o gyfarfodydd grwpiau ffocws rhieni yn cael eu cynnal hanner ffordd drwy dymor y gwanwyn.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,

Mr Ceri Scourfield
Pennaeth